**ATODIAD 4**

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
| **Cynlluniau'r Cyngor:** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 12,443 | 2,795 | 1,005 |
| Unedau Diwydiannol | 2,652 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro | 10,974 | 1,975 | 0 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 4,505 | 0 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 1,203 | 2,077 | 1,301 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 1,060 | 308 | 2,998 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 7,475 | 6,730 | 3,860 |
| Cynlluniau Eiddo | 3,854 | 100 | 194 |
| Cerbydau Adrannol | 6,899 | 3,854 | 244 |
| Cyfarpar Digidol | 606 | 609 | 1,248 |
| Cynlluniau Eraill | 1,565 | 437 | 1,872 |
| Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu) | 500 | 500 | 500 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **53,736** | **19,385** | **13,222** |

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,070 | 4,070 | 4,070 |
| Benthyca Arall | 4,740 | 4,481 | 362 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 24,960 | 6,498 | 2,540 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 8,709 | 308 | 3,700 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 11,257 | 4,028 | 2,550 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **53,736** | **19,385** | **13,222** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 diweddarwyd y strategaeth gan y Cyngor gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i'r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a'r adnoddau sydd ar gael.

6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2025/26 i 2027/28, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.

7. Mae'r ffigwr Benthyca Gyda Chefnogaeth a'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2025/26 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau ac mae'r rhaglen wedi ei addasu i gydfynd.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £53,736,190 ar gyfer 2025/26, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.